Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC, Dwyrain Abertawe,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd.
CF99 1NA

16 Awst 2019

Annwyl Mike,

Yn ystod y Datganiad Busnes ar 16 Gorffennaf, gwnaethoch godi mater pwysig yn ymwneud â chyfalaf trafodiadau ariannol a chytunais i ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae cyfyngiadau Llywodraeth y DU ar ddefnyddio trafodiadau ariannol yn parhau i gyfyngu ar ein gallu i wireddu gwerth ariannol ac effeithiolrwydd llawn y cyllid hwn fel rhan o'n DEL Cyfalaf. Er hyn, fel y nodais yn y Cyfarfod Llawn, rydym wedi gweithio i ddefnyddio'r cyllid hwn mewn ffyrdd arloesol i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau pwysig Llywodraeth Cymru. Rwy'n atodi rhestr o'r holl raglenni sydd wedi cael cymorth hyd yma.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth fanylach ar gael ynglŷn â chyllid trafodiadau ariannol fel rhan o'r ddogfennaeth gyllidebol sy'n cael ei chyhoeddi. Mae Atodiad D cyllideb ddrafft amlinellol 2019-20 yn cynnwys tabl crynodeb o broffiliau ad-dalu ar gyfer buddsoddiadau trafodiadau ariannol, gan gynnwys y symiau ac erbyn pryd y bydd angen eu had-dalu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a byddaf yn rhoi copi yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dyrannu Cyfalaf Trafodiadau Ariannol o 2013-14 i 2020-21[1]

Prosiect/Rhaglen	£m
Cymorth i Brynu Cymru - Helpu pobl gymwys sy'n prynu cartref newydd ei adeiladu gyda morgais benthyciad isel mewn cymhariaeth â gwerth a rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu.	463
Banc Datblygu Cymru - Cyllid buddsoddi i roi mynediad i gyllid ar gyfer BBaChau, cefnogi busnesau i dyfu, hybu allforion a chreu/diogelu swyddi. Mae'n cynnwys cyllid ar gyfer twristiaeth, achub ac ailstrwythuro, busnesau micro, cyd-fuddsoddi angel, eiddo masnachol, buddsoddiad hyblyg, gwyddorau bywyd etc.	340
Banc Datblygu Cymru - Cyllid tai ar gyfer datblygu eiddo, safleoedd segur a hunanadeiladu	94
Y cynllun Tir ar gyfer Tai - Darparu cyllid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gaffael safleoedd er mwyn cyflymu datblygiad cynlluniau tai fforddiadwy.	62
Cynlluniau Datblygu Economaidd - Cyllid sy'n cefnogi twf economaidd yng Nghymru	65
Cyllid Datblygu Eiddo a'r Sector Eiddo - Helpu i adeiladu cartrefi, a mannau masnachol a diwydiannol newydd.	20
Maes Awyr Caerdydd a'r Diwydiant Hedfan - Cynyddu potensial masnachol y diwydiant hedfan yng Nghymru a gwella datblygiad llwybrau teithio.	38
Troi Tai'n Gartrefi/Benthyciadau i Wella Cartrefi - Ailddefnyddio cartrefi gwag yng Nghymru a chynyddu'r cyflenwad tai.	30
Tai - Cefnogi'r ymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi	15
Twf Gwyrdd Cymru a Seilwaith Gwyrdd - Cefnogi sector ynni adnewyddadwy Cymru a chynyddu a chyflymu prosiectau sy'n darparu buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru.	18
Benthyciadau Canol y Dref a Chronfeydd Adfywio - Cynorthwyo i ddarparu dyfodol cynaliadwy ar gyfer safleoedd gwag a safleoedd ac eiddo nad ydynt yn cael defnydd digonol, gan gefnogi canol trefi llewyrchus llawn addewid.	32
Coleg y Cymoedd - Cefnogi campws addysg bellach newydd yn Aberdâr.	5
Ardal Adfywio Strategol Ynys y Bari - ffordd gyswllt Cyflymu darpariaeth llwybr trafnidiaeth allweddol fel rhan o'n rhaglen adfywio.	2
Cynllun Benthyciad Cyfalaf ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden - Gwella cyfleusterau drwy ddull buddsoddi-i-arbed, cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol a chyfrannu at well canlyniadau iechyd.	2
Undebau Credyd - Benthyciadau cymorth	1

[1] Cynlluniau dangosol yw'r rhai ar gyfer 2020-21. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r filiwn agosaf, fel yr adroddwyd gan adrannau ym mis Gorffennaf 2019 a 2018-19 sy'n destun archwiliad.